# RHESTR WIRIO
# Y SWYDDFA A'R SEFYDLIAD

## GADEWCH I NI LEIHAU EIN HEFFAITH

Drwy leihau faint o garbon rydym yn ei gynhyrchu, gallwn helpu i arafu effeithiau newid hinsawdd.

Chi sy'n cymryd y camau cyntaf – mae angen gweithredu ar raddfa fyd-eang i gael atebion go iawn, ond mae dewisiadau y gallwch chi eu gwneud yn eich gwaith a'ch bywyd bob dydd i leihau eich effaith ar yr amgylchedd.

- Bod yn ymwybodol o'r hinsawdd – dechrau'n fach, meddwl yn fawr.
- Dyma restr wirio i'ch helpu i ddechrau:

# RHESTR WIRIO Y SWYDDFA A'R SEFYDLIAD

## TEITHIO A THRAFNIDIAETH

- ☐ Anogwch a chefnogwch weithio gartref lle bo modd
- ☐ Rhowch gymhelliant i bobl i gerdded, beicio neu e-feicio, mynd ar y trên neu rannu ceir i fynd i'r gwaith
- ☐ Gwnewch yn siŵr bod cludiant cyhoeddus ar gael i fynd i gyfarfodydd wyneb yn wyneb
- ☐ Ceisiwch hedfan llai – allwch chi wneud un daith fusnes ryngwladol yn llai eleni? Ystyriwch ddefnyddio'r trên
- ☐ Gwnewch gynlluniau i gyflwyno neu logi cerbydau hybrid neu drydan
- ☐ Defnyddiwch gludiant cyhoeddus lle bo modd

## YNNI A DŴR

- ☐ Newidiwch i ddarparwr ynni adnewyddadwy
- ☐ Trowch thermostatau i lawr i 19 gradd neu lai
- ☐ Trowch y goleuadau ac offer trydanol i ffwrdd pan fyddwch yn gadael y gwaith
- ☐ Cyflwynwch oleuadau LED neu gosodwch synwyryddion symudiad
- ☐ Gosodwch baneli adlewyrchu y tu ôl i reiddiaduron er mwyn arbed ynni
- ☐ Gosodwch fesurydd clyfar er mwyn deall eich defnydd o ynni
- ☐ Gwnewch arolwg colli gwres thermal
- ☐ Insiwleiddiwch a gwellwch effeithlonrwydd ynni eich gweithle
- ☐ Gwasanaethu'n flynyddol – toiledau dau opsiwn fflysio ac unedau aerdymheru

## BWYD A GWASTRARFF

- ☐ Ewch yn weithle dim plastig untro
- ☐ Os defnyddir cynnyrch untro, gwnewch yn siŵr y gellir eu hailgylchu neu eu compostio
- ☐ Gwnewch yn siŵr bod biniau ailgylchu yn y gweithle
- ☐ Ailgylchwch gyfarpar swyddfa a TG

## PETHAU ERAILL Y GALLECH EU HYSTYRIED

- ☐ Pennwch gydweithwyr neu bwyllgor i arwain ar hybu newid
- ☐ Symudwch at gyflenwr gwe-letya gwyrdd
- ☐ Symudwch fuddsoddiadau a phensiynau i gronfeydd moesegol
- ☐ Ystyriwch ddileu blynyddol – i wneud mwy o le yn eich cymylau data
- ☐ Defnyddiwch feini prawf amgylcheddol pan fyddwch yn prynu eitemau
- ☐ Ystyriwch ddiwydrwydd dyladwy eich noddwyr corfforaethol
- ☐ Cefnogwch brosiect hinsawdd ystyrlon (neu gynllun gwrthbwyso) sy'n adfer cynefinoedd bioamrywiaeth.

